



Cydnabyddiaeth y Cadeirydd £25,200 y flwyddyn gydag ymrwymiad amser o hyd at 72 diwrnod y flwyddyn.

Cydnabyddiaeth yr Aelodau £300 y dydd gydag ymrwymiad amser o hyd at 12 diwrnod y flwyddyn.

Hybu Cig Cymru (HCC) yw'r corff strategol sy'n gyfrifol am ddatblygu, marchnata a hyrwyddo diwydiant cig coch Cymru. Ei genhadaeth yw datblygu marchnadoedd proffidiol a chynaliadwy ar gyfer Cig Oen Cymru, Cig Eidion Cymru a phorc o Gymru. Mae'r sefydliad yn gwmni cyfyngedig drwy warant heb unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Mae'r Bwrdd yn cynnwys hyd at 12 cyfarwyddwr anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i benodi Cadeirydd ac un ar ddeg o Aelodau i wasanaethu ar Fwrdd HCC. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am ddatblygu Cynllun Corfforaethol a Busnes HCC, am yr angen i gynnal system llywodraethu corfforaethol gadarn ac am sicrhau y caiff yr holl weithgareddau eu cyflawni yn onest ac yn briodol fel sy'n ofynnol gan sefydliad o'r fath.

Lansiwyd Dyfodol y Diwydiant: Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru, a ddatblygwyd gan HCC ar y cyd â'r diwydiant a Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2015. Nod y Cynllun Gweithredu yw sicrhau diwydiant proffidiol, effeithlon, cynaliadwy ac arloesol sydd o fudd i bobl Cymru; diwydiant cig coch sy'n gallu gwrthsefyll newidiadau gwleidyddol ac amgylcheddol ac ymateb yn gystadleuol i dueddiadau mewn marchnad sy'n newid yn barhaus. Mae HCC wedi mabwysiadu'r blaenoriaethau strategol yn y cynllun gweithredu ac yn sicrhau bod y broses o'i roi ar waith yn canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

Cynhelir Cyfarfodydd y Bwrdd yn swyddfeydd HCC yn Aberystwyth. Fodd bynnag, bydd angen mynd i gyfarfodydd, sesiynau briffio, digwyddiadau a sioeau'r diwydiant ledled Cymru, y DU ac, o bosibl, ledled y byd.

Polisi Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo ac integreiddio cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar ei busnes gan gynnwys penodiadau i gyrrff cyhoeddus. Caiff ceisiadau eu croesawu a'u hannog gan bob grŵp ac rydym yn sicrhau na fydd unrhyw ymgeisydd cymwys ar gyfer swydd gyhoeddus yn derbyn triniaeth lai ffafriol ar sail oedran, anabledd, rhywedd, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, na beichiogrwydd a mamolaeth. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn gymwys a gwneir penodiadau ar sail teilyngdod.

Am ragor o fanylion ac i wneud cais ewch i <http://www.cymru.gov.uk/penodiadaucyhoeddus> neu os oes gennych ymholiadau cysylltwch â Gareth Wilson drwy ffonio 0300 025 3366 neu drwy anfon neges e-bost i Gareth.wilson@wales.gsi.gov.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 11 Ionawr 2017. Ni chaiff ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried. Disgwylir i'r cyfweiliadau gael eu cynnal yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 6 Chwefror 2017.

Mae fersiynau print mawr, Braille neu sain o'r hysbyseb hon ar gael ar gais drwy ffonio 029 2082 5454.